**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

SeneddClimate@senedd.wales

15 Mehefin 2022

Annwyl Gadeirydd

**Canlyniad cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, dyma roi gwybod bod y Gweinidog Newid Hinsawdd a minnau wedi cynrychioli Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar 24 Mai 2022.

Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Tai a Llywodraeth Leol, Shona Robison ASA a'r Gweinidog dros Nawdd Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Ben Macpherson ASA, yn bresennol ar ran Llywodraeth yr Alban. Roedd y Gweinidog Cymunedau, Deirdre Hargey ACD a'r Gweinidog Cyllid, Conor Murphy ACD, yn cynrychioli Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Y Gwir Anrhydeddus Michael Gove, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol a gadeiriodd y cyfarfod rhithwir – yng nghwmni'r Gweinidog dros Ffyniant Bro, y Cyfansoddiad a'r Undeb, Neil O'Brien AS; a'r Gweinidog dros Ddiogelwch Adeiladau a Thân, yr Arglwydd Greenhalgh.

Trafododd y grŵp eu ffyrdd o weithio yn y dyfodol, ar sail y canlyniadau y cytunwyd arnynt yn sgil yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Penderfynodd y grŵp gyfarfod bob chwarter, a chytunais y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal y cyfarfod nesaf.

Diogelwch Adeiladau oedd y brif eitem ar yr agenda. Roedd y grŵp yn cydnabod ei fod yn fater a rennir sy'n effeithio ar bob llywodraeth a bod gennym nod ar y cyd i ddwyn y diwydiant i gyfrif ac amddiffyn preswylwyr. O ystyried y tebygrwydd cyffredinol ar draws ein systemau, pwysleisiodd y Gweinidog Newid Hinsawdd bod angen cydweithio'n well ar y materion a gadwyd yn ôl ar gyfer diogelwch adeiladau, gan gynnwys yswiriant a benthyca. Tynnodd sylw at bryderon a nodwyd o'r blaen ynghylch yr angen i Lywodraeth Cymru gael

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ei chynnwys mewn trafodaethau a gynhelir rhwng Llywodraeth y DU a datblygwyr eiddo sy'n ymwneud â chael eu cytundeb i ariannu ac atgyweirio pob adeilad dros 11 metr y maent wedi chwarae rhan yn y gwaith o'u datblygu.

Bydd swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth yn gweithio ar ran y pedair gwlad i gytuno ar yr hyn y roddir sylw iddo yn y cyfarfod nesaf a gynhelir yn yr hydref.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a gafodd ei drafod yn y cyfarfod yma.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol